CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MEDI 15, 2015

Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn
Neuadd Bentref Rhydymain
Nos Fawrth, Medi 15, 2015 am 7:30 o'r gloch.

Presennol Cynghorwyr: Peredur Jenkins, Huw A. Evans, Emlyn Roberts, Mordaf Roberts a Barry Jones. Hefyd Henry M. Edwards.

1.Croeso'r Cadeirydd

Croesawyd pawb oedd yn bresennol. Yn absenoldeb y Cadeirydd, cadeiriwyd y cyfarfod gan Peredur Jenkins.

2. Ymddiheuriadau: Rhun Prys Jones, Llion Rh. Williams a Meurig Ashton.

3. Datgan diddordeb.

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Gorffennaf 21, 2015

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Gorffennaf 21, 2015

Eitem 10.a. Llythyr (29/07/2015) oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bod y drych wedi ei lanhau.

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (Awst, 2015) oddi wrth Cymorth Cynllunio Cymru yn gwahodd ni i weithdy Hyfforddiant ar gynllunio ar gyfer Clercod a Chynghorwyr Cymuned a Thref yn Plas Tan y Bwlch ar ddydd Llun Medi 21 am 6yh.

b. Llythyr (11/8/2015) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi'r cynigion a gyflwynir yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol Un Llais Cymru ar 3/10/2015.

c. Llythyr (Gorffennaf 2015) oddi wrth Shelter Cymru. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

ch. Llythyr (17/08/15) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod maent yn cynnal sesiynau hyfforddiant ar Cod Ymddygiad. Bydd sesiwn yn Swyddfa Cyngor Gwynedd, Penarlag ar 12/10/15 am 6.30yh. Mae gwahoddiad i'r clercod a'r aelodau'r cynghorau.

d. Llythyr (20 Awst, 2015) oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith rhoi gatiau newydd yn lle camfeydd ac atgyweirio gatiau ar lwybr yn Dolserau.

dd. Llythyr (1/9/2015) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gwrs Dealltwriaeth o'r Gyfraith bydd yn cael ei gynnal yn Llyfrgell Rydd Dolgellau ar ddydd Mawrth 29/9/2015 am 6.30yh. Cost y cwrs fydd £35.

e. Llythyr (4/9/2015) oddi wrth Wales Rally GB yn rhoi gwybod bydd y rali yn yr ardal ar ddydd Sadwrn, Tachwedd 14 am 7.30yb.

f. Llythyr (01.09.2015) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gyfarfod nesaf Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn Bafiliwn Criced, Dolgellau ar Medi 23 am 7.00yh. Yn bresennol fydd Swyddog o Cyngor Gwynedd yn rhoi cyflwyniad ar drosglwyddo cyfrifoldebau am wasanaethau ac asedau i gynghorau cymuned a thref. Amgáu mae Agenda a Chofnodion Cyfarfod Mai 13.

ff. Llythyr (14/09/2015) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am orchymyn gwaharddiad trafnidiaeth am 3 mis o Hydref 7, 2015 i osod cyfarpar BT ar hyd y ffordd ger Capel Siloh, Llanfachreth. Mae disgwyl cwblhau'r gwaith o fewn 10 diwrnod.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref, 1990. Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref, (Gweithdrefn Rheoli Datblygiad) (Cymru) 2012.

i. Cais NP5/54/348B. Mae'r Awdurdod yn caniatáu Newid defnydd o dir amaethyddol i ysgol farchogaeth ceffylau ynghyd ac adeiladu ffens goed ar hyd y terfyn a gwrych newydd. Wern Gawr, Rhydymain.

ii. Cais NP5/54/384A. Mae'r Awdurdod yn caniatáu Gosod ffliw allanol, adeiladu storfa goed a hafdy ynghyd a gosod tanc LPG o dan y ddaear. Beudy Caerynwch, Brithdir.

b. Llythyr (28/7/2015) gyda gwybodaeth mewn perthynas ag ymgyrch Gweld Sêr Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Rhoddwyd copi i'r aelodau.

c. Cais cynllunio:

NP5/54/434. Cynllun trydan dwr 99.9kw arfaethedig yn cynnwys adeiladu argae, adeilad tyrbin a gosod pibellau dan y ddaear. Afon Celynog, ger Prysglwyd Uchaf, Rhydymain.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (Awst 4, 2015).

8. Materion Ariannol

a. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Gorffennaf, 2015: £1,135.11.

c. Balans yn y banc ar 29 Gorffennaf, 2015: £6,112.76.

d. Derbyniwyd Praesept (28/08/15) am £3,000.00 oddi wrth Cyngor Gwynedd.

dd. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Awst, 2015: £1,135.18.

e. Balans yn y banc ar 29 Awst, 2015: £9,112.76.

9. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins

a. Cafwyd trafodaeth ynglŷn ag toriadau ariannol mae Cyngor Gwynedd yn ei wynebu.

b. Mae gwaith adeiladu yn cael ei wneud yn ysgol Rhydymain.

c. Mae Corff Cysgodol ysgolion dalgylch wedi ei sefydlu. Mae disgwyl bydd Pennaeth yn cael ei benodi yn y dyfodol agos.

10. Unrhyw fater arall

a. Cofiwch am y cyfarfod i drafod cael cynghorau dalgylch y Gader i gyd weithio fel sy'n cael ei wneud yn ardal Penllyn. Bydd cyfarfod yn Neuadd Bentref y Brithdir ar nos Wener Medi 25 am 7.30yh. i drafod y mater.

b. Penderfynwyd cael rhywun i ail osod plac 'Last Days of Dolwyn' ar Tŷ Ffred.

c. Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd mae angen:

i. tocio coed ar ochr ffordd am hyd o ganllath o Bryn yr Aur, Bontnewydd.

ii. arwyddion wrth Ffatri Laeth Rhydymain ar ffordd A494 i rybuddio gyrwyr i arafu eu cyflymder er mwyn diogelwch.

iii. trwsio bocs graeanu sydd ar dop rhiw Stesion, Drwsynant. Mae twll ynddo.

iiii. rhwystro ceir parcio ar ochr ffordd A494 wrth gwt BT wrth Troedyrhiw, Rhydymain. Maent yn rhwystro cael gweledegd clir i'r A494.

v. polion newydd i ddau gat ar lwybr Maescambrian i Troedyrhiw, Rhydymain. Hefyd, mae'r llwybr o'r gât i'r bont yn beryglus.

vi. graeanu ffordd o'r A494 i Neuadd Hengwrt, Rhydymain yn y gaeaf.

vii. ategewirio 'gullies' ar ffordd A494. 1 wrth Frwd y Gwyllt, 2 rhwng y Felin a Throedyrehiw, 1 rhwng Troedyrhiw a Rhydymain

---

Llofnod: Dyddiad: